# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Chwefror, 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32402** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1 ARGYMHELLIAD

1.1 Sefydlu darpariaeth Teledu Cylch Cyfyng ar sail cyfundrefn heb ofalwr (Opsiwn 2).

1.2 Neilltuo £489,000 o gyfalaf o Gronfa Buddsoddi i Arbed y Cyngor ar gyfer cyflawni'r newid.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae angen dod i ganlyniad ar ddyfodol y gwasanaeth hwn sydd angen buddsoddiad buan mewn technoleg ac offer newydd, a hyn tra'n wynebu lleihad yn y gyllideb a chyfraniadau gan eraill ar gyfer ei gynnal.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng (T.C.C) yn cynorthwyo mewn atal a lleihau troseddu a chamymddwyn cymdeithasol yn y mannau poblog o'r Sir sef Bangor, Maesgeirchen, Caernarfon, Pendalar/Maes Barcer a Pwllheli. Nid yw cael gwasanaeth T.C.C yn ofyn statudol ond o dan Adran 17 o'r Ddeddf Troseddu ac Anrhefn 1998, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyffredinol i wneud yr oll sy'n rhesymol i atal troseddu ac anrhefn yn lleol. Felly mae'r dyletswydd yma yn ystyriaeth berthnasol i'r penderfyniad.

Mae'r Gwasanaeth T.C.C. yn cyflogi 5 gofalwr llawn amser a 2 ofalwr cymhorthol (reliefs). Maen't yn gyfrifol am fonitro 73 o gamerâu sydd mewn mannau cyhoeddus ynghyd a monitro camerâu eraill sydd mewn depos y Cyngor. Mae'r Ystafell Fonitro T.C.C. wedi ei leoli yng Nghaernarfon ac yn weithredol pob awr o'r dydd a phob dydd o'r wythnos.

Mae Heddlu Gogledd Cymru (HGC) yn cadarnhau bod y Gwasanaeth T.C.C presennol yn darparu cymorth iddynt yn enwedig mewn ymdrin â ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn o siopau.  Mae ffigyrau o'r flwyddyn 2016 yn dangos bod HGC wedi gwneud, ar gyfartaledd, 47 cais pob mis am luniau wedi eu recordio gan y Gwasanaeth.  Mewn trafodaethau a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda HGC, bu cyfeirio at y Gwasanaeth yma yng Ngwynedd yn darparu cymorth allweddol a gwerthfawr mewn ymdrin â throseddau mwy difrifol fel dynladdiad, camddefnydd o gyffuriau ac ymosodiadau rhywiol.

Mae'r gyllideb blynyddol ar gyfer y gwasanaeth yn £190,000 ac mae'n denu incwm o £48.820 o weithgareddau mewnol fel monitro depos y Cyngor, ynghyd â incwm o £34,850 gan randdeiliad eraill sef Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Dinas Bangor, Cyngor Tref Caernarfon, Cyngor Tref Pwllheli a Prifysgol Bangor.

Yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd, cwtogwyd ar y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth o £90k.  Er bod lleihad o 3 swydd bu ymgais i gadw at ddarpariaeth 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos.  Eleni, mae'r gwasanaeth, ar adegau, yn methu cyflawni'r ddarpariaeth 24/7 oherwydd penderfyniad Cartrefi Cymunedol Gwynedd i beidio cyfrannu £35k yn flynyddol i'r Gwasanaeth ar gyfer monitro stadau tai Maesgeirchen a Maes Barcer.

Mae'r system T.C.C. presennol yn gweithredu drwy ddefnydd camerâu analog yn bennaf sydd wedi eu cysylltu drwy amryw gyfrwng i fatrics rheoli analog. Mae'r caledwedd matrics rheoli presennol (Maxpro), sydd yn holl bwysig mewn gweithredu'r system, yn destun pryder gan ei fod yn agosáu at ddiwedd ei oes weithredol a ni ellir ei adnewyddu.  Yn ogystal, mae nifer o'r camerâu analog hefyd yn agos i gyrraedd diwedd eu hoes gweithredol ac mae safon ac eglurder y llun gyda rhai camerau ddim digon da o ran eu defnydd ar gyfer erlyniadau.

Bu i ni gomisiynu cwmni arbenigol i'n cynghori ar yr anghenion technegol ac wedi ystyried y mater mewn manylder mae 3 opsiwn wedi ei adnabod ar gyfer y gwasanaeth sef:

**Opsiwn 1: Trefn un gofalwr (single manned)**
**Opsiwn 2: Trefn heb ofalwr (unmanned)**
**Opsiwn 3: Terfynu'r Gwasanaeth**

Yn atodol i'r Adroddiad hwn mae cymhariaeth o'r opsiynau hyn o ran yr oblygiadau ar ein trigolion, rhanddeiliad, y ddarpariaeth, staff a chyllideb.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ystyriwyd yr opsiwn o derfynu'r gwasanaeth (Opsiwn 3) yn yr ymarferiad ymgysylltu Her Gwynedd a'r consenswS pryd hynny oedd na ddylid terfynu'r gwasanaeth.  Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn cadarnhau bod y gwasanaeth angen ei gadw ar gyfer eu cynorthwyo yn y gwaith o atal troseddau ac ymdrin â ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gydag Opsiynau 1 a 2, mae'r gwasanaeth yn parhau ond byddai angen buddsoddiad sylweddol yn y dechnoleg ac offer er mwyn gwneud hyn. Er bod Opsiwn 1 yn rhagori o ran y gallu i ymateb ar y pryd i ddigwyddiadau, prin fod yr arbedion ragwelir o'i weithredu yn ddigonol ar gyfer cwrdd â'r diffyg yn y gyllideb sydd wedi ei greu ers i Gartrefi Cymunedol Gwynedd beidio cyfrannu at y gwasanaeth.

Yn sicr mae gan Opsiwn 2 effaith sylweddol o ran colli swyddi ond mae yn rhagori ar Opsiwn 1 o ran y gallu i ddefnyddio technoleg ddiwifr fyddai'n caniatáu i'r heddlu gael mynediad uniongyrchol i'r system. Gydag Opsiwn 2 bydd y defnydd o well camerâu (a mwy ohonynt) yn galluogi recordio tystiolaeth o well safon ac mewn fformat priodol ar gyfer defnydd mewn llysoedd heddiw ac i'r dyfodol. Gyda chyswllt diwifr, byddai Opsiwn 2 yn rhoddi cyfleon i ymestyn y gwasanaeth teledu cylch cyfyng i leoliadau eraill yn y Sir pe byddai angen i'r dyfodol. Er y buddsoddiad uwch sydd ei angen ar ei gyfer, mae Opsiwn 2 yn rhagori ar yr opsiynau eraill dan ystyriaeth o ran yr arbedion ddaw i'r Cyngor o'i weithredu.

O ganlyniad i'r ystyriaethau hyn, argymhellir mai Opsiwn 2 ddylid ei fabwysiadu.

Ar weithredu Opsiwn 2 ni ragwelir y bydd effaith ar ofyn statudol y Cyngor o dan Adran 17 o'r Ddeddf Troseddu ac Anrhefn 1988 gan y bydd y ddarpariaeth yn parhau i bwrpas cynorthwyo mewn atal troseddu ac anrhefn. Bydd y dewis o Opsiwn 2 yn parhau i gynorthwyo mewn sicrhau cymunedau cydlynol, diogel fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn parhau i gynnig cyfleon i gydweithio a chyrff cyhoeddus eraill a mewn dull integredig a chynhwysol fel sy'n gydnaws ag egwyddorion y Ddeddf.

Mae'r Asesiad Cydraddoldeb sy'n atodol i'r Adroddiad hwn yn dangos na ragwelir y byddai gwireddu Opsiwn 2 yn debygol o gael effaith o ran pobl a nodweddion sydd i'w gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Ar ddewis yr Opsiwn argymhellir, bydd ymgynghori pellach gyda'r staff a'r undebau perthnasol ynghyd â rhanddeiliad ac Aelodau perthnasol ar oblygiadau'r newid.

Bydd angen sicrhau arian cyfalaf ar gyfer cyflawni'r newid o Gronfa Buddsoddi i Arbed y Cyngor.

Rhagwelir bydd y drefn newydd ar gyfer y Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng yn weithredol yn y flwyddyn ariannol 2019/20.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru i drafod yr Opsiynau dan ystyriaeth a derbyniwyd yr adborth canlynol ganddynt:

*Yr ydym yn deall yr hinsawdd ariannol anodd yr ydych yn wynebu ac yn derbyn bod hyn yn golygu bod y gwasanaeth ddarperir yn debygol o angen newid.*

Mae'r ymgynghori gyda'r staff a'r Undebau perthnasol wedi cychwyn a hyd yn hyn derbyniwyd yr adborth canlynol:

*Staff: Yn mynegi pryder am y colli swyddi ond bod y newid yn ddisgwyliedig. Hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig ydi'r gwasanaeth i'r Heddlu.*

*Undebau: Yn well ganddynt Opsiwn 1 sef Trefn Un Gofalwr o safbwynt cadw swyddi. Hefyd yn gofyn i ni ystyried ail hyfforddi ac adleoli staff i swyddi eraill yn y Cyngor os yn bosib.*

Ar benderfynu ar yr Opsiwn i fabwysiadau, rhagwelir bydd ymgynghori pellach gyda'r rhanddeiliad perthnasol ar oblygiadau cyflawni a gweithredu'r newid.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Fel y nodir yn yr adroddiad mae ystod o ffactorau i'w hystyried wrth ddod i benderfyniad ar ddyfodol y ddarpariaeth TCC. Fe grynhoir y rhain yn briodol yn yr adroddiad ynghyd â chloriannu oblygiadau posib newid y ddarpariaeth.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Cytunaf gyda chasgliad yr adroddiad a'r atodiadau mai Opsiwn 2 sydd fwyaf ffafriol o ran arbedion ariannol, ac felly rwy'n gefnogol i'r argymhelliad. Mae'r opsiwn yma hefyd yn sicrhau bod asedau'r Cyngor yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Bydd defnyddio'r gronfa buddsodd i arbed yn sicrhau bod y gwasanaeth yn talu am yr offer ac ddim yn sugno adnoddau cyfalaf prin y Cyngor. Os na fydd cyfleon i ad-leoli staff, mae'n debyg bydd costau diswyddo ynghlwm â'r opsiwn yma; byddwn yn ystyried ariannu hynny o'r gronfa diswyddo corfforaethol, fel bo angen.

**Barn Yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.